YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD

Annwyl Riant/Warchodwr,

Mae hi'n amser meddwl am aelodaeth yr Urdd eto ac rydym fel ysgol am eich annog i ymaelodi eich plant/plentyn.

Fel y gwyddoch efallai, mae'r Urdd yn fudiad cyffrous, blaengar ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru. Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fyw bywydau byrlymus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel ysgol rydym yn cymryd rhan yn nifer o weithgareddau'r Urdd gan gynnwys e.e *Eisteddfod yr Urdd, Celf a Chrefft yr Urdd, Cystadlaethau Chwaraeon yr Urdd (Bl.5 a 6)*

Fel aelod o'r Urdd fe fydd eich plentyn/plant yn derbyn cerdyn aelodaeth a bathodyn arbennig ac yn gallu cymryd rhan yn ein holl weithgareddau.

Pris aelodaeth ar gyfer 2014/2015 yw £6 y pen cyn 6 Tachwedd 2014 neu £7 wedi'r dyddiad hynny.

Amgaewn amlen i chi lenwi a rhoi eich arian aelodaeth ynddi a gofynnwn i chi ddychwelyd yr amlen a'r arian i'r ysgol erbyn dydd Llun 20 Hydref er mwyn i ni brosesu eich aelodaeth cyn y dyddiad cau.

Os oes gennych 3 neu fwy o blant, ymaelodwch eich teulu ar y we am £16.50 trwy ymweld â'n gwefan urdd.org/aelodaeth

Os hoffech fwy o wybodaeth ynglŷn â gwaith yr Urdd yna ewch i www.urdd.org/fyardal

Yn gywir

Janet Wyn George
(Pennaeth)